Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llanbrynmair**

**Y Ganolfan Gymunedol**
**Llanbrynmair**
**SY19 7AB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Llanbrynmair

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Llanbrynmair |
| Lleoedd cofrestredig | 14 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, yn gyfforddus ac wedi ymlacio yn y lleoliad. Maent wedi ffurfio ymlyniadau emosiynol cadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r staff gofal. Mae'r plant yn datblygu hyder a hunan-barch cadarnhaol am eu bod yn cael gofal cyson gan y staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Maent yn meithrin cyfeillgarwch, yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod â phwy i siarad os byddant yn anhapus neu'n bryderus.

Mae'r staff gofal yn drylwyr eu hymagwedd ac yn ystyried plant unigol. Maent yn gosod ffiniau realistig ac yn rhoi strategaethau cyson ar waith i reoli ymddygiad. Mae'r staff gofal yn fodelau rôl cadarnhaol, ac yn darparu awyrgylch meithringar a gofalgar. Maent yn deall anghenion a galluoedd unigol y plant ac yn eu diwallu.

Mae'r plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant a darparu cyfleoedd chwarae priodol. Caiff yr adnoddau a'r offer eu cynnal a'u cadw'n dda, ac maent o ddyluniad addas.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tîm. Maent yn sicrhau eu bod yn cynnal y rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn meithrin partneriaethau gwaith da â'r rhieni.

## Llesiant Da

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac i fynegi barn. Maent yn cyfathrebu'n hyderus â'r staff gofal a'u cyfoedion, a chaiff eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion eu hystyried. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi, gan sicrhau eu llesiant unigol.

Mae'r plant yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal a'u cyfoedion. Maent yn egnïol ac yn dangos eu bod yn mwynhau eu chwarae. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn amlwg yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn hoffi'r rhyddid i ddewis ardaloedd chwarae o fewn yr ystafell. Mae'r plant yn dysgu i ddeall eu teimladau ac i ddangos boddhad. Er enghraifft, roedd y plant yn gwenu wrth i'w ffrindiau gyrraedd y lleoliad, ac roedd eraill yn dathlu eu cyflawniadau wrth gwblhau gweithgaredd crefft Nadoligaidd.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyderus ac yn agored, ac yn cydweithio a chymdeithasu mewn ffordd gyfeillgar. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall sut i gymryd eu tro, aros, a rhannu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff gofal yn dangos bod y plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da. Mae'r plant yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r adnoddau i'w cadw ar ddiwedd y sesiwn.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau. Maent yn dangos diddordeb a chyffro ac yn mwynhau cymryd rhan mewn tasgau. Er enghraifft, drwy ddefnyddio blociau mathemategol er mwyn eu helpu i gyfrif, neu drwy ddefnyddio adnoddau i wneud marciau yn y toes chwarae. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd da dan do a chânt ryddid i ddewis gweithgareddau a symud o amgylch y lleoliad. Er enghraifft, i gwblhau posau jig-so, paentio, chwarae rôl neu adeiladu tyrau gyda'r blociau adeiladu.

Caiff y plant gyfleoedd da a rheolaidd i ddatblygu sgiliau corfforol, sgiliau cymdeithasol a sgiliau emosiynol a gallant ddilyn eu diddordebau yn llwyddiannus. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy fynd i'r toiled a golchi a sychu eu dwylo, neu drwy ddewis pryd maent yn barod am eu byrbryd.

| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac arloesol. Maent yn nodi risgiau ac yn eu rheoli, ac yn ymateb i'r plant yn gyson. Mae'r staff yn hyderus o ran gweithdrefnau diogelu'r lleoliad ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau ar waith drwy gydol y sesiwn, megis diheintio'r byrddau cyn amser byrbryd. Maent yn rhoi arferion golchi dwylo a hylendid ar waith yn ofalus. Yn ystod amseroedd byrbryd, mae'r staff yn canmol y plant ac yn annog moesau da wrth y bwrdd, megis dweud ‘os gwelwch yn dda’ and ‘diolch’. Mae arferion sefydledig wedi eu rhoi'n ofalus ar waith gan y staff i ymdrin ag alergeddau ac maent yn wybodus am weithdrefnau'r lleoliad. Maent yn newid cewynnau ag urddas a phreifatrwydd. Mae'r staff yn barod eu cymwynas ac yn wybodus am anghenion unigol y plant. Mae'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau wedi cael eu cwblhau.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn parchu ei gilydd ac yn cyfathrebu'n gyson, gan ddangos caredigrwydd, cymorth a chydweithrediad effeithiol. Maent yn sensitif i brofiadau'r plant ac yn ymateb i lefel y cymorth sydd ei angen i ddatblygu'r plant a diwallu eu hanghenion unigol. Er enghraifft, ymatebodd y staff â gofal pan gafodd llaeth ei ollwng yn ystod amser byrbryd, gan ddileu unrhyw risgiau a chynnig cysur. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac wedi creu amgylchedd gwaith prysur a hapus.

Mae'r staff yn dangos eu bod yn adnabod y plant yn dda ac yn gallu darparu gwybodaeth fanwl am anghenion ac arferion y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sgiliau unigol y plant. Mae'r staff yn dechrau rhoi egwyddorion newydd Cwricwlwm i Gymru ar waith ac yn cynnwys y plant mewn trafodaethau ar gynllunio gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw'r broses o gynllunio gweithgareddau bob amser yn cael ei chwblhau'n gyson, ac nid yw bob amser yn ystyried pob maes dysgu a phrofiad. Mae'r staff yn cofnodi rhai arsylwadau o gynnydd y plant mewn llyfrau nodiadau unigol. Fodd bynnag, nid yw'r arsylwadau bob amser yn cyfrannu at y broses o gynllunio i'r dyfodol. Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant y maent yn gofalu amdanynt.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch y plant. Ar y cyfan, maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd croesawgar, cynnes a chartrefol, gyda mynedfeydd ac allanfeydd clir. Maent yn cynnal ymarferion tân a phrosesau gwagio'r adeilad yn rheolaidd, ac mae'r holl gofnodion yn gyfredol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff pob cyfarpar tân ei wasanaethu a bod gwiriadau diogelwch yr adeilad yn cael eu cynnal a'u dogfennu'n gywir. Maent yn cadw ffeil gynhwysfawr o asesiadau risg cyfredol a phwrpasol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru pan fo angen. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau cofrestrau staff a phlant dyddiol, sy'n cynnwys eu hamseroedd cyrraedd a gadael. Yn yr un modd, maent yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw i nodi pob ymwelydd â'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o le chwarae dan do yn yr amgylchedd er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth o ardaloedd dysgu dan do sy'n galluogi'r plant i archwilio a meithrin sgiliau newydd. Maent hefyd yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn gaeedig ac yn cynnig ardal sy'n cynnwys glaswellt ac arwynebau caled i'r plant chwarae. Caiff y plant eu goruchwylio bob amser, ac mae'r ymarferwyr yn deall lefelau risg. Fodd bynnag, nid oes defnydd rheolaidd o'r amgylchedd awyr agored bob amser, yn enwedig yn ystod tywydd garw.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau chwarae o ansawdd da ar gael i'r plant dan do. Yn yr ardal awyr agored, maent yn darparu ardal agored gydag amrywiaeth o gyfarpar o ansawdd da sy'n cynnig cyfleoedd i feithrin sgiliau corfforol a sgiliau datrys problemau'r plant ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau yn addas ar gyfer oedran y plant, a'u bod yn cynnig amrywiaeth, dewis a chyfleoedd i'r plant archwilio a dysgu. Er enghraifft, blociau, llyfrau, cerbydau, posau, adnoddau crefft, anifeiliaid bach a gwisgoedd ar gyfer parti gwisg ffansi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac yn cadw ffeil o bolisïau a gweithdrefnau sydd, ar y cyfan, yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn sicrhau bod y polisïau'n cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu arferion y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn cydymffurfio â bron pob un ohonynt, ac maent yn dogfennu arferion gweithdrefnau yn gyson mewn ffordd drefnus a chyfrinachol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n llawn yn eu rolau. Maent yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda'r staff ac arfarniadau blynyddol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefn recriwtio gadarn ar waith ac mae ffeiliau pob aelod o'r staff yn cynnwys y dogfennau cywir cyn iddynt ddechrau yn eu swydd. Mae cofnodion eraill, megis ffeiliau'r plant, rotas cludiant a dogfennaeth ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cymarebau staffio yn gywir ac felly bod anghenion y plant yn cael eu diwallu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llunio adolygiad hunanwerthuso blynyddol manwl. Maent yn dangos eu bod yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y staff a'r plant yn ofalus er mwyn cynnal safonau ac yn sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud fel rhan o gynllun gweithredu. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda iawn o'u cyfrifoldebau i hybu'r Gymraeg ac i gyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu cysylltiadau ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Maent wedi meithrin partneriaeth dda â'r ysgol gyda chydweithrediad a chymorth amlwg. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau da â'r gymuned leol ac maent yn mynd â'r plant i'r parc lleol, i'r theatr ac i ymweld â fferm. Maent yn codi arian fel cymuned yn rheolaidd, drwy gynnal rafflau Nadoligaidd ac ati.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Ystyried ffyrdd i wneud defnydd mwy rheolaidd o'r ardal chwarae awyr agored gyfagos, yn enwedig yn ystod tywydd garw er mwyn galluogi'r plant i ddewis pryd yr hoffent chwarae yn yr awyr agored. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Parhau i fireinio a mewnblannu'r dulliau cynllunio ac arsylwi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/02/2024